

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion o Gyfarfod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 20 Medi 2017 am 5pm

YN BRESENNOL

Y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M.Tegg - Maer

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol

L.M.Adams	H.Fychan	W.Owen
S.Belzak	E.George	D.Owen-Jones
D.R.Bevan	D.Grehan	S.Pickering
J.Bonetto	M.Griffiths	S.M.Powell
S.A.Bradwick	J.Harries	S.Rees
J.Brencher	L.Hooper	S.Rees-Owen
A.Calvert	P.Howe	A.Roberts
G.Caple	G.W.Hughes	J.Rosser
A.Chapman	J.James	G.Stacey
A.G.Cox	P.Jarman	E.S.Stephens
A.Crimmings	G.Jones	G.P.Thomas
J.L.Cullwick	K.L.Jones	W.Treeby
G.R.Davies	W.Jones	L.G.Walker
J.R.Davies	R.Lewis	M.O.Weaver
A.Davies-Jones	W.Lewis	M.Webber
L.De Vet	C.Leyshon	E.Webster
S.Evans	D.Macey	D.H.Williams
S.M.Evans-Fear	A.Morgan	J.Williams
M.Fidler Jones	K.Morgan	T.Williams
M.Forey	S.Morgans	C.J.Willis
A.S.Fox	M.Norris	R.Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr.C.Bradshaw - Prif Weithredwr

Mr.C.Lee – Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i
Blant

Mr.C.B.Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

Mr.T.Wilkins – Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol

Mr.C.Hanagan - Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus

Ms.K.May - Pennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol

42 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol H.Boggis, M.Diamond, J.Elliott, G.Holmes, S.Powderhill, M.J.Powell, R.Smith, R.K.Turner a G.D.G.Williams.M.Webber a C.J.Willis.

43 DATGAN BUDDIANT

PENDERFYNWYD - nodi yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau doedd dim datganiadau o fuddiant yn ymwneud â'r agenda.

44 DEISEBAU

Cafodd y tair deiseb ganlynol eu cyflwyno i'r Maer yn ystod y cyfarfod gan:-

- (1) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.Hooper ar ran trigolion Ton-teg yn gofyn i gyflwyno mesurau arafu traffig / gostwng cyflymder ar Church Road, Tonteg.
- (2) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Chapman ar ran trigolion Dumfries Street, Treorci yn gofyn bod camau'n cael eu gweithredu i wella neu adnewyddu'r palmentydd i Dumfries Street, Treorci.
- (3) Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol E.Stephens ar ran trigolion Y Gelli yn gofyn bod mesurau arafu traffig yn cael eu gosod ar Alexandra Road a Tudor Road, Y Gelli.

45 CYHOEDDIADAU

- (1) Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.Walker lwyddiant Ysgol T Coch, Ton-teg, sydd yn ysgol arbennig i blant ag anawsterau dysgu difrifol a phlant sydd ag awtistiaeth, o ran ennill dyfarniad o 'ardderchog' dwywaith yn ei harolygiad Estyn ym mis Mehefin eleni. Dim ond ers mis Medi 2015 y bu Mr.D.Jenkins yn Bennaeth yr ysgol. Yn ystod yr amser hwnnw mae hefyd wedi newid yr uwch garfan arweinyddiaeth. Yn ystod adeg yr arolygiad, roedd Mr.D.Jenkins hefyd yn gweithio fel Pennaeth gweithredol dros dro mewn ysgol arall yn Rhondda Cynon Taf.

Diolchodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Walker i'r Maer am ymweld â'r ysgol yn ddiweddar. Roedd y plant yn falch iawn ei bod hi wedi rhoi o'i hamser i gwrdd â nhw.

- (2) Hysbysodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber yr Aelodau, ar ôl casglu cymaint o arian yn ystod yr ymgyrch 'Giving to Pink' llynedd, byddai blwch casglu arian yn y cyfarfod pe bai Aelodau a Swyddogion yn dymuno cyfrannu at yr uned canser pwrpasol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
- (3) Hoffai'r Maer nodi ei diolch i'r staff ac i bawb a fynychodd ei diwrnod dinesig ddydd Iau, 14 Awst, 2017 a chyfrannu at wneud yr achlysur yn un pleserus a chofiadwy.

46 **COFNODION**

PENDERFYNWYD –Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2017, yn rhai cywir.

47 **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

(a) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. James i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu a Thai (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D. R. Bevan)

“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet wneud datganiad yngŷn â phwysigrwydd y broses ymgynghori statudol yn ystod y broses cais cynllunio?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

Diolch yn fawr i'r Cyngorydd James am eich cwestiwn graenus. Rydych chi i gyd yn ymwybodol bod ymgynghori statudol o ran ceisiadau cynllunio yn rhan bwysig i Aelodau. Mae'r rheoliadau wedi'u nodi yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 2012, a'r gorchymyn diwygiedig dilynol yn 2016.”

Cwestiwn Ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.James

“Un o'r ymgynghoreion statudol yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Ac er nad ydyn ni'n cysylltu â nhw ynghylch pob cais, dydyn nhw erioed wedi ymateb i unrhyw ymgynghoriad rydyn ni wedi cynnig iddyn nhw. A yw'r Aelod Cabinet yn cyd-deimlo'r siom tuag at hyn, a pha gamau y byddech chi'n eu cymryd i sicrhau eu bod nhw'n ymgysylltu'n fwy priodol yn y dyfodol?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

“Cwestiwn da iawn arall gan y Cyngorydd James. Rydyn ni i gyd yn gweld yr adroddiadau cynllunio ac yn aml iawn fydd yr ymgynghoreion statudol sy'n cael eu gwahodd i wneud sylwadau ddim yn ymateb. Bydd y Pwyllgor Cynllunio'n derbyn llythyrau "hwyr". O ran Cwm Taf, byddwn ni'n cysylltu â nhw i ofyn pam nad yw hyn yn digwydd gan fod y rhwymedigaethau statudol ar y cyrff eu hunain ”.

(b) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol L. Hooper i Arweinydd y Cyngor (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol A. Morgan)

“A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi ei wneud o ran y prosiectau sydd wedi eu hariannu gan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

“Er gwybodaeth yr Aelodau, y sefyllfa bresennol ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2016/17 oedd £291,828, sef cydbwysedd incwm yr Ardoll Seilwaith

Cymunedol strategol. Mae Rheoliadau'r Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi Rhestr Isadeiledd, o'r enw'r Rhestr 123. Mae'n bosib y bydd y prosiectau seilwaith sydd ar y Rhestr 123 wedi'u hariannu'n llawn neu'n rhannol gan yr Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae yna dipyn o oedi o ran hyn, ac felly, roedd y gwaith diweddar ar yr A4119 wedi'i gyflawni trwy gytundeb Adran 106.

Cwestiwn Ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol L.Hooper

"Talaf deyrnged i'r Cyngor ar y gwaith a ymgwyrodd o ran cylchfan Tonysguboriau. Bydd pawb yn rhannu fy nymuniadau gan y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr. Gyda hyn mewn golwg, byddai'r Arweinydd wedi fy ngweld i'n cyflwyno deiseb yn gynharach. Roedd y ddeiseb yma yn cynrychioli galwad i osod dulliau arafu traffig yn Nhon-teg. Dydy'r galw yma am ddulliau arafu traffig ddim yn destun newydd. Yn 1998, cafodd trigolion llythyr oddi wrth y Cyngor yn nodi bod "eich cais eisoes wedi'i nodi a'i ychwanegu at y rhestr o gynlluniau". Er bod y dulliau yma wedi cael eu haddo o'r blaen, dydyn nhw ddim wedi cael eu darparu. A allaf ofyn bod y dulliau hiddisgwylidig yma yn cael eu gosod a'u hychwanegu ar y cynllun Ardoll Seilwaith Cymunedol?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan

Mae pawb yn ddiolchgar am y gwaith i'r A4119. Bwriad yr Awdurdod yma yw gwneud gwelliannau pellach o Coed-elái i lawr i'r M4, trwy becyn o ymyriadau. O ran y llythyr, roedd yn bum mlynedd cyn i mi ddod yn Gynghorydd. Doedd ffordd osgoi Pentre'r Eglwys ddim yn agored, felly byddai'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol.

Os ydych chi'n cyfrifo'r holl gynlluniau arafu traffig, mae'n dod at filiynau o bunnoedd. Rydyn ni'n gwario swm sylweddol o ran ein cyllid cyfalaf ein hunain a chafodd nifer o welliannau i'r priffyrdd eu gwneud trwy arian o'r fath pan oedd y cyn Gynghorydd Hanagan yn Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am y mater yma. Rydyn ni wedi buddsoddi mewn llwybrau diogel i ysgolion ar ben y grant diogelwch ffyrdd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain i gyd yn cael eu hasesu ar ddata clwstwr damweiniau. Mae yna lawer o gynlluniau na ddylid eu hariannu, er enghraifft cul de sac sydd â 22 o gartrefi. Ar y llaw arall mae yna sawl cynllun yr hoffen ni ei ariannu, ond mae'n rhaid inni weithio ar y clystrau damweiniau.

(c) Cwestiwn gan y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. R. Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a Phlant (y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. Hopkins)

"A wnewch chi ddatganiad ynglŷn â'r gwasanaethau i'r henoed yn Rhondda Cynon Taf?"

Nodwch: Hysbysodd y Maer yr Aelodau, yn absenoldeb y Cynghorydd G.Hopkins, bydd ymateb yn cael ei wneud yn ysgrifenedig.

(d) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol G.Caple i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol D.R.Bevan)

“Beth ydy'r Cyngor yn ei wneud i ddenu buddsoddi o'r tu allan ac i greu cyfleoedd adfywio?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

“Diolch am hyn Cyngorydd Caple. Mae'n drueni na allen ni gael trafodaeth hir ar hyn. Y dystiolaeth rydyn ni'n ei gweld o ran hyn yw bod ymrwymiad i gymuned gadarn a chynaliadwy sydd yno. Mae adroddiad yn cael ei ystyried yng nghyfarfod y Cabinet yfory ynghylch safleoedd strategol, gan gynnwys tai, cyfleoedd cyflogaeth a safleoedd pellach y bydden ni'n hoffi eu datblygu. Dyna'r lefel o ymrwymiad rydyn ni am gynnig ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Bydd manteision o Dasglu'r Cymoedd a'r Fargen Ddinesig ac mae Arweinydd y Cyngor hwn yn cadeirio'r ddau gorff. Mae llawer o waith i'w wneud a fyddwn ni ddim yn gorffwys nes bod hyn wedi'i gyflawni ar gyfer y sir a'i thrigolion”.

Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G.Caple

“Rwy'n falch bod y Cyngor mor weithredol. Sut bydd trefi yn y Rhondda yn disgwyl elwa ar ymagwedd y Cyngor?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan

“Cyfeiriaf at ganol trefi. Hoffen ni Gael gwared ar ffioedd parcio ceir, yn enwedig yn Nhonypandy, sydd wedi gweld cynnydd i'w hymwelwyr ers cyflawni'r gwaith yno, megis gwella blaen y siopau a'i wneud yn hygyrch i gerddwyr. Cynhalion ni gyfarfod gyda masnachwyr i amlinellu'r cynigion, a chawson nhw eu croesawu. Bydd trafodaethau pellach wrth i'r gwaith fynd rhagddo. Fyddwn ni ddim yn gorffwys nes byddwn ni'n ei gael yn iawn”.

(e) Cwestiwn gan y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol J. Bonetto i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor (y Cyngorydd Bwrdeistref Sirol M. Webber)

“A fydd yr Aelod o'r Cabinet yn gwneud datganiad ynghyd â dull y Cyngor ar gyfer greu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl ifainc?”

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Webber

“Rwy'n falch o ddweud bod gennym ni hanes cryf o greu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc. Rydyn ni'n cynnal amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys gofal plant a ffeiriau swyddi. Daeth dros fil o bobl i'r ffair swyddi ym mis Mawrth eleni, ac mae un arall yn digwydd yn Aberdâr yr wythnos nesaf. Bydd hyn yn cynnig y cyfle delfrydol i ddarpar weithwyr ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ein cynlluniau Prentisiaethau a Graddedigion, yn ogystal â chyfle i gwrdd â chyflogwyr eraill megis y Lluoedd Arfog. O ganlyniad i gynlluniau Prentisiaethau a Graddedigion y Cyngor, mae 171 o bobl wedi llwyddo i gael

swydd. Eleni, cafodd 45 o bobl ychwanegol eu cyflogi drwy'r cynlluniau, a'r gobaith yw y bydd 100 o swyddi yn cael eu creu dros y tymor Cyngor yma.

Noder: Doedd dim cwestiynau atodol y roedd angen i'r Cynghorydd Webber ymateb iddyn nhw.

ADRODDIADAU'R ARCHWILYDD ALLANOL

48 (1) **ADRODDIAD ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL – CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

(2) **ADRODDIAD ARCHWILIAD O DDATGANIADAU ARIANNOL – CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF**

Cyflwynodd Mr.J.Herniman o Swyddfa Archwilio Cymru yr adroddiadau uchod i'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, ac ymatebion Mr.Herniman a'r Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen i'r ymholiadau, **PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cynnwys y ddau adroddiad.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR CYFADRAN Y GWASANAETHAU CORFFORAETHOL A RHENG FLAEN

49 **DATGANIAD O GYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2017**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen y Datganiad o Gyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2017, ac yn dilyn ystyriaeth **PENDERFYNWYD** –

(1) Cymeradwyo a nodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 (Atodiad 1) a Llythyrau Sylwadau cysylltiedig yr Awdurdod (Atodiad 2) a'r Gronfa Bensiwn (Atodiad 3).

(2) Cymeradwyo a nodi'r sefyllfa ynghylch gwariant terfynol archwiliedig ar gyfer y Cyngor o ran y flwyddyn ariannol 2016/17 a lefel Balansau'r Gronfa Gyffredinol, fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 7.4 yr adroddiad.

(3) Nodi ystyriaethau a sylwadau'r Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfodydd 11 Gorffennaf a 4 Medi 2017, fel sy'n ofynnol gan y Mesur Llywodraeth Leol, fel sydd wedi nodi ym mharagraffau 10.2 a 10.3 o'r adroddiad.

(4) Ar ôl cwblhau'r cyfrifon, gofynnodd Arweinydd y Cyngor i'r Swyddog Adran 151 gynnal adolygiad o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a chyfleoedd ariannu eraill fel rhan o brosesau gosod cyllideb arferol y Cyngor ac i adrodd yn ôl i'r Aelodau.

- (5) Diolchwyd i'r Swyddogion a'r staff dan sylw, ar ran yr Aelodau, am eu gwaith wrth sicrhau bod cyllid y Cyngor yn parhau i fod mewn sefyllfa iach.

ADRODDIAD AR Y CYD YR YSGRIFENNYDD I'R CABINET A PHENNAETH Y GWASANAETHAU LLYWODRAETHOL

50 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: DIWYGIAD ETHOLIADOL I LYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU – YMATEB DRAFFT

Yn unol â Chofnod Rhif 41 Cyfarfod y Cyngor ar 19 Gorffennaf, 2017, atododd yr Ysgrifennydd i'r Cabinet a Phennaeth y Gwasanaethau Llywodraethol i'w hadroddiad ar y cyd, sylwadau/barn a gafodd eu mynegi gan yr Aelodau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (Atodiad A) ar 30 Awst 2017 a Gweithgor y Cabinet (Atodiad b) ar 5 Medi 2017, ynghyd ag ymateb drafft sydd wedi nodi yn Atodiad C mewn perthynas â phapur ymgynghorol Llywodraeth Cymru sydd wedi nodi uchod.

Yn dilyn trafodaeth hir pan gafodd Aelodau wybod bod modd cyflwyno ymatebion unigolion a grŵp Plaid ar wahân i Lywodraeth Cymru
PENDERFYNWYD -

- (1) Nodi cynnwys canfyddiadau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a Gweithgor y Cabinet o'r cyfarfodydd ar 30 Awst a 5 Medi, 2017 yn y drefn honno.
- (2) I gytuno ar yr ymateb drafft fel sydd wedi nodi yn Atodiad C yr adroddiad.

Nodwch: Hoffai Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S.Belzak, A.Chapman, A.G.Cox, J.L.Cullwick, G.R.Davies, J.R.Davies, H.Fychan, D.Grehan, L.Hooper, J.James, P.Jarman, W.Jones, D.Macey, K.Morgan S.Rees-Owen, E.S.Stephens, M.O.Weaver a J.Williams gofnodi eu henwau i'r ffaith eu bod nhw wedi pleidleisio yn erbyn y cynnig i gytuno i'r ymateb drafft.

ADRODDIAD CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL A LLYWODRAETHOL

51 ADRODDIAD INTERIM Y GWEITHGOR CRAFFU YN YMWNEUD Â DARPARIAETH NWDYDDAU GLANWEITHIOL AM DDIM MEWN YSGOLION

Ar ôl ystyried y Rhybudd o Gynnig yng nghyfarfod y Cyngor ar 19 Gorffennaf, 2017 (mae Cofnod Rhif 40 yn cyfeirio ato), rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol adroddiad interim i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad yn trafod y Gweithgor Craffu a gafodd ei sefydlu er mwyn ymdrîn â'r mater o 'nwyddau glanweithiol am ddim mewn ysgolion'.

Dywedodd bod Gweithgor i ystyried y Rhybudd o Gynnig wedi cael ei sefydlu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 26 Gorffennaf, 2017.

Cyfarfod cyntaf y Gweithgor oedd 31 Awst, 2017. Roedd yn cynnwys Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol S.Rees-Owen (Cadeirydd), W.Lewis (Is-gadeirydd), A.Calvert, H.Fychan, J.Brencher a S.Evans (cynigydd i'r Rhybudd o Gynnig diwygiedig). Yn y cyfarfod, daeth yr Aelodau i wybod er bod yr adroddiad interim yn

nodi bod cynigydd ac eilydd i'r Rhybudd o Gynnig, Cyngorwyr E.Stephens a G.R.Davies, yn bresennol yng nghyfarfod cyntaf y Gweithgor, roedden nhw wedi cyflwyno eu hymddiheuriadau am absenoldeb.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol am ganfyddiadau interim y Gweithgor ynghyd â'r camau arfaethedig nesaf.

PENDERFYNWYD -

- (1) Derbyn adroddiad interim y Gweithgor Craffu.
- (2) Derbyn adroddiad pellach yn amlinellu canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor Craffu i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol

52 Rhybuddion o Gynigion

(1) **PENDERFYNWYD** - nodi bod y Rhybudd o Gynnig a oedd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol J.James, L.Hooper, M.Diamond a K.L.Jones wedi ei dynnu'n ôl gan yr Aelodau uchod gan fod y mater mewn perthynas â "Dying to Work" i'w ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod yfory (21 Medi, 2017).

(2) Trafodwyd y Rhybudd o Gynnig canlynol sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol G. Thomas a G. Caple:-

"Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer 2018 sydd wedi ei gyflwyno gan yr undebau – UNSAIN, GMB ac Unite – ar ran gweithwyr ysgolion a'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn galw am ddod â'r cap cyflog yn y sector cyhoeddus i ben ar unwaith i sicrhau nad yw tâl y Cydgyngor Cenedlaethol yn cael gostwng ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu ac yn cefnogi'r adolygiad ar y cyd o raddfa dâl y Cydgyngor Cenedlaethol i unioni'r aflonyddwch sydd wedi cael ei achosi gan setliadau tâl sy'n cynyddu wrth fynd i lawr y raddfa.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r cyllid llawn i Gymru er mwyn ariannu codiad cyflog boddhaol i weithwyr y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi terfyn ar doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Galw yn syth ar Gymdeithas Llywodraeth Leol i gyflwyno achos ger bron y Llywodraeth i roi'r cyllid llawn i hawliad y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi gwybod i ni am ei chamau yn hyn o beth.
- Ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am gael y cyllid llawn ar gyfer codiad cyflog boddhaol a'r adolygiad o'r raddfa dâl.

- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad tâl a'r adolygiad o'r raddfa dâl."

Yn y cyfarfod, cyhoeddodd y Maer yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, mae Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, J.Williams, E.S.Stephens, D.Grehan, E.Webster, H.Fychan, G.R.Davies ac M.O.Weaver wedi cynnig y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig:-

"Mae'r Cyngor hwn yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer 2018 sydd wedi ei gyflwyno gan yr undebau – UNSAIN, GMB ac Unite – ar ran gweithwyr ysgolion a'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn galw am ddod â'r cap cyflog yn y sector cyhoeddus i ben ar unwaith i sicrhau nad yw tâl y Cydgyngor Cenedlaethol yn cael gostwng ymhellach y tu ôl i rannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu ac yn cefnogi'r adolygiad ar y cyd o raddfa dâl y Cydgyngor Cenedlaethol i unioni'r aflonyddwch sydd wedi cael ei achosi gan setliadau tâl sy'n cynyddu wrth fynd i lawr y raddfa.

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i roi'r cyllid llawn i Gymru er mwyn ariannu codiad cyflog boddhaol i weithwyr y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi terfyn ar doriadau i gyllid y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:

- Galw yn syth ar Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gyflwyno achos ger bron Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth i roi'r cyllid llawn i hawliad y Cydgyngor Cenedlaethol a'r adolygiad o'r raddfa dâl ac i roi gwybod i ni am ei chmau yn hyn o beth.
- Ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am gael y cyllid llawn ar gyfer codiad cyflog boddhaol a'r adolygiad o'r raddfa dâl.
- Ysgrifennu at Brif Weinidog Cymru yn cefnogi hawliad tâl y Cydgyngor Cenedlaethol ac yn gofyn am ddileu'r cap o 1% ar gyflogau i weithwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr undebau lleol y Cydgyngor Cenedlaethol i ddangos cefnogaeth i'r hawliad tâl a'r adolygiad o'r raddfa dâl."

Yn dilyn trafodaeth, cymerwyd y bleidlais mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig Diwygiedig lle gollwyd y bleidlais, ac yn dilyn y bleidlais a gymerwyd mewn perthynas â'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol, **PENDERFYNWYD** - i fabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig wreiddiol sy'n sefyll yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G.Thomas a G.Caple.

M.TEGG

MAER

Daeth y cyfarfod i ben am 7.07 p.m.